# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley a Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Democrataidd (GW) a Phennaeth Cyllid, Asedau a Thai (JG); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (LG); Rheolwr Prisio ac Ystadau (GT); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2015.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

### 5 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 2 – 2015/16

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 - 17 ar ddiwedd chwarter 2 o 2015/16.

Roedd yr adroddiad perfformiad yn darparu crynodeb o ran sefyllfa pob canlyniad yn y Cynllun ynghyd â dadansoddiad o’r eithriadau allweddol. Roedd yr holl ganlyniadau wedi’u gwerthuso fel derbyniol neu well ac roedd eglurhad ar gyfer statws pob dangosydd wedi’i gynnwys yn yr adroddiad gyda materion allweddol wedi’u hegluro ymhellach yn y cyfarfod. O ran y Gofrestr Prosiectau Corfforaethol nid oedd unrhyw brosiect â statws 'Coch' a dim ond tri phrosiect oedd â statws derbyniol 'Oren' gyda'r holl brosiectau ar y trywydd cywir. Cynghorwyd y Cabinet bod adroddiad Chwarter 2 wedi’i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad lle y codwyd materion yn ymwneud â system filio newydd Nwy Prydain ac is-ddeddfau baw cŵn.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau’r materion canlynol -

- Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion – roedd y ffigyrau blynyddol diweddaraf (hyd at fis Ebrill 2014) yn dangos bod perfformiad 0.1% yn is na'r lefel dderbyniol o 93.7%. Er bod y dangosydd hwn yn flaenoriaeth ar gyfer gwella nid oedd yn faes pryder penodol.
- Canran yr achosion agored o blant ar y gofrestr amddiffyn plant sydd â gweithiwr cymdeithasol dynodedig – er mwyn darparu sicrwydd ar ddiddymu’r dangosydd hwn cynghorwyd yr Aelodau bod y fframwaith canlyniadau yn newid yn unol â gofynion Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ac roedd y dangosydd yn cael ei ddisodli gan gyfres o ddangosyddion a fyddai'n cofnodi data mewn dull sy'n fwy ystyrlon - byddai'r gwasanaeth yn debygol o barhau i fonitro'r dangosydd penodol hwn nes y sefydlir y dangosyddion newydd.
- Arolwg Preswylwyr – cynghorwyd yr Aelodau bod y data o arolwg 2013 ac y byddai’r canlyniadau sy’n deillio o arolwg 2015 gan adlewyrchu’r safbwyntiau diweddaraf ar gael ar gyfer yr adroddiad chwarterol nesaf. Cytunwyd y byddai cymhariaeth o ganlyniadau'r ddau arolwg yn yr adroddiad hwnnw.
- Allyriadau Carbon – ni ellir cynhyrchu gwybodaeth ar hyn o bryd oherwydd problem fawr gyda system filio newydd Nwy Prydain yr oeddent yn ceisio ei datrys. Nid problem Sir Ddinbych yn unig oedd hon gan ei bod yn effeithio ar nifer o awdurdodau lleol ac awgrymwyd y dylid ystyried ceisio cefnogaeth gan CLlLC ac LGA i godi'r mater gyda'r Gweinidogion Ynni. Roedd y Cyngor am newid ei ddarparwr ynni o fis Ebrill 2016 beth bynnag. Cyfeiriwyd hefyd at waith y Cyngor i leihau ei allyriadau carbon a chytunodd Pennaeth Cyllid, Asedau a Thai i ddosbarthu nodyn briffio yn egluro’r sefyllfa bresennol o ran y system filio a’r camau a gymerir er mwyn lleihau ôl troed carbon y Cyngor.
- Datblygu’r Economi Leol – amlygodd yr Arweinydd newidiadau i gefnogaeth a chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau newydd a’r pryderon ynglŷn â’r model newydd arfaethedig yr oedd yn credu y gallai amharu ar dwf busnes yn Sir Ddinbych. Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus ymhellach ynglŷn â sut yr oedd cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau yn newid a darparodd sicrwydd bod y Cyngor yn gweithio’n agos gyda darparwyr cyngor a chymorth busnes eraill er budd busnesau lleol.

Canmolodd y Cabinet natur gadarnhaol yr adroddiad perfformiad a thrafod y dull gorau o gyfleu’r neges i’r cyhoedd a chynhyrchu cyhoeddusrwydd cadarnhaol. Roedd yr Aelodau o blaid dull rhannu gwybodaeth mewn rhannau er mwyn sicrhau cyflenwad rheolaidd o wybodaeth ynglŷn â’r perfformiad rhagorol a gwaith da a

buddsoddiad ehangach mewn meysydd eraill ac ar brosiectau mawr. Awgrymwyd hefyd y gellir ail-hyrwyddo llwyddiant prosiectau a gwblhawyd yn flaenorol, megis Datblygu Harbwr y Rhyl. Cytunodd y Cynghorydd Hugh Irving i godi'r mater gyda'r Tîm Cyfathrebu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2 2015/16.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.410 miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- Roedd 91% o'r arbedion a gytunwyd wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed o £7.3m) ac amcangyfrifir y byddai mwyafrif yr arbedion sy'n weddill yn cael eu cyflawni erbyn 2016/17 fan bellaf
- amlygwyd bod y prif amrywiadau oddi wrth dargedau cyllideb neu arbedion yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen y Cynllun Corfforaethol).

Canmolodd y Cabinet gynllun Datblygu Arfordirol Gorllewin y Rhyl a oedd yn agos at gael ei gwblhau a chadarnhawyd bod gwaith ar y cynllun ar draws Cwrs Golff y Rhyl ar y gweill a fyddai'n darparu gwell amddiffynfa ar gyfer preswylwyr yn nwyrain y Rhyl. Canmolwyd Datblygiad y Nova hefyd a chanmolodd yr aelodau y deunyddiau hyrwyddo a hysbysebu a gynhyrchwyd i farchnata'r cyfleuster rhagorol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i longyfarch a diolch i'r holl staff a fu'n rhan o'r prosiect hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w ystyried a nododd yr aelodau'r diwygiadau canlynol-

- dileu eitem Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer mis Ionawr
- eitem ychwanegol ar gyfer mis Chwefror ynglŷn â Prosiect Datblygu Glan y Môr y Rhyl.

O ran adroddiad cynnydd Prosiectau y Cynllun Corfforaethol roedd y Cabinet wedi cytuno i dderbyn adroddiad cychwynnol ym mis Ionawr ac yna'n rheolaidd wedi hynny. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid darparu cyflwyniad proffesiynol i'r cyfryngau ymlaen llaw er mwyn codi ymwybyddiaeth a chynhyrchu cyhoeddusrwydd cadarnhaol. Teimla'r Cabinet ei bod yn bwysig amlygu llwyddiannau blaenorol ynghyd â'r prosiectau a gynlluniwyd er mwyn amlygu

prosiectau pwysig eraill y tu hwnt i'r Cynllun Corfforaethol i ddangos ymrwymiad a buddsoddiad y Cyngor yn y sir.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 ac 16 o Ran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**8 21-26 RHODFA'R GORLLEWIN, Y RHYL (HEN SAFLE HONEY CLUB)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad cyfrinachol yn ceisio llwybr datblygu amgen ar gyfer 21-26 Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl.

Cynghorwyd y Cabinet ynglŷn â'r cymhlethdodau a darparwyd cefndir i'r sefyllfa bresennol ynghyd â'r goblygiadau ariannol a'r rhesymau dros yr argymhellion yn yr adroddiad. Adroddodd Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd ynglŷn â'r elfennau cyfreithiol ac ymateb i'r materion a godwyd gan Chesham Estates (Rhyl) Ltd yn eu gohebiaeth i'r Aelodau Cabinet yn ddiweddar.

Ystyriodd yr Aelodau'r sefyllfa bresennol a'r opsiynau amrywiol a gyflwynwyd er mwyn symud ymlaen i ddatblygu'r safle a'r cwestiynau a godwyd mewn perthynas â gwahanol agweddau o'r adroddiad a'r gwersi a ddysgwyd o'r broses. Rhoddwyd sicrwydd ynglŷn ag ymrwymiad Whitbread / Premier Inn Hotels Ltd i ddatblygu'r safle.

Roedd y Cabinet yn awyddus i ddiogelu'r cyfle datblygu gorau posibl ar gyfer y safle fel rhan o adfywiad cyffredinol y Rhyl ac i osgoi unrhyw oedi gormodol yn y broses honno. Roedd yr Aelodau'n fodlon bod yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad yn rhesymol ac yn gamau gweithredu cymesur o ystyried yr amgylchiadau ac yn cynrychioli'r opsiwn gorau ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol. Felly -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) Cymeradwyo terfynu'r Cytundeb datblygu presennol gyda Chesham Estates (Rhyl) Ltd ac awdurdodi Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd i gyflwyno rhybudd terfynu;*

*(b) Cymeradwyo gwaredu'r tir yn 21-26 Rhodfa'r Gorllewin (y safle) a Maes Parcio Crescent Road ar brydles 125 mlynedd i Whitbread / Premier Inn Hotels Ltd ar delerau sy'n cynnig yr ystyriaeth orau sy'n rhesymol bosibl ar gyfer y Cyngor yn seiliedig ar yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn; a*

*(c) Bod telerau gwaredu o'r fath yn cael eu cymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd a Phennaeth Cyllid, Asedau a Thai.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.